Swyddogaeth a chyfrifoldebau'r adolygydd ymgynghorol

Er bod statws cyflogaeth adolygwyr ymgynghorol yn wahanol i statws adolygwyr eraill, mae pob un ohonynt yn aelod cyflawn o'r tîm cydadolygu. Mae'r adolygydd ymgynghorol yn cymryd rhan yn yr holl gyfarfodydd allweddol ar gyfer rhannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau.

Eu swyddogaeth yw:

- darparu arbenigedd penodol wrth edrych ar feysydd arbennig o fewn y fframwaith gwerthuso;
- ategu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd ar gael o fewn y tîm adolygu;
- darparu elfen o her ar gyfer y tîm adolygu, gan weithredu fel un dull o gynorthwyo i sicrhau chwarae teg a chanolbwyntio ar faterion allweddol.

O dan rai amgylchiadau, gall y rheolwr gweithrediadau ar gyfer cydadolygu yn naill ai Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru neu Swyddfa Archwilio Cymru gyflawni'r swyddogaeth hon.

Cytunir ar gylch gwaith unigol pob adolygydd ymgynghorol mewn ymgynghoriad â'r rheolwr gweithrediadau perthnasol yn Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru neu Swyddfa Archwilio Cymru a'r adolygydd arweiniol. Gall hynny gynnwys cymryd cyfrifoldeb am werthuso maes gwasanaeth penodol ond mae'n fwy tebygol y bydd eu gwaith yn canolbwyntio ar y ffordd mae'r awdurdod lleol yn cynnig arweiniad cyffredinol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol. O'r herwydd, y tueddiad fydd i'r adolygydd ymgynghorol ddefnyddio'i amser ar gyfer cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr corfforaethol a gwleidyddol allweddol ac ar gyfer dadansoddi tystiolaeth berthnasol arall.

Dyraniad tebygol o amser

- darllen a briffio cyn gwneud gwaith maes - 3 diwrnod;
- dadansoddi gwaith maes y cam eang - 2 ddiwrnod;
- cyfranogi yng ngwaith maes y cam manwl - 5 diwrnod;
- dadansoddi terfynol - 2 ddiwrnod;
- cyfrannu tuag at yr adroddiad - 2 ddiwrnod;
- cyfarfodydd adborth - 1 diwrnod.